

Maddeuant

Darlleniad: Mathew 18: 21-35

Ein Tad, cofiwn i Iesu ein dysgu, fel y dysgodd ei ddisgyblion i weddio:

‘Maddau i ni ein troseddau, fel yr ŷm ni wedi maddau i’r rhai a droseddodd yn ein herbyn.’

Sylweddolwn ar ein hunion, mor eithriadol bwysig yw’r geiriau hyn. Yn bwysig am eu bod yn dod â ni wyneb yn wyneb â’r ffaith mai Duw maddeugar wyt ti a bod disgwyl i ninnau yn ein bywydau’n hunain faddau i’r rhieny sydd wedi troseddu yn ein herbyn.

Deuwn, ein Tad, i gyffesu i ninnau droseddu yn dy erbyn di. Aeth dy gyfreithiau a’th orchmynion ymhell o’n cof a chawsom ein hunain yn dilyn ein hewyllys hunanol yn hytrach nag yn ceisio dy ewyllys di. Yn wyneb hyn, deuwn ger dy fron mewn edifeirwch ac erfyniwn arnat am dy faddeuant. Daw i’n cof eiriau Ioan Fedyddiwr pan welodd yntau’r Arglwydd Iesu’n dod ato i’w fedyddio yn afon Iorddonen: ‘Dyma Oen Duw, sy’n cymryd ymaith bechod y byd’. Credwn mai dyma oedd pwrpas dyfodiad yr Arglwydd Iesu i’n byd ac mai dyma pam y bu iddo farw drosom. Daeth i’n gwaredu rhag canlyniadau’n pechod a’n hanufudd-dod i Ti, a thrwy hynny ein gwahodd i dderbyn y bywyd sydd ar ein cyfer gennyti, yn awr ac am byth.

O! Dad, gwyddom fod dy faddeuant yn Iesu Grist ar gael i ni ar yr amod ein bod yn troi atat mewn edifeirwch a ffydd. Erfyniwn felly am gael dod o’th flaen a dechrau dy ddilyn o’r newydd yn ein bywydau. Dyro inni brofi hynny’n awr a chael cychwyn ar bererindod ffydd a fydd yn ein harwain i berthynas newydd a bywiol â thi, fel y byddwn, o hyn ymlaen, yn byw ein bywydau er clod a gogoniant i’th enw sanctaidd. Gwyddom hefyd, ein Tad,

mai canlyniad yr hyn a gyflawnodd Iesu, ynghyd â'n hedifeirwch ni a'th faddeuant dithau, yw ein bod ninnau'n cael magu ffydd ynot a chael ein cyfiawnhau ger dy fron.

Dymunwn gael bod yn iawn yn dy olwg, fel y medrwn sefyll o'th flaen yn y gobaith y cawn gyfranogi o'th ogoniant. Diolchwn i ti am gymodi'r byd â thi dy hun yn Iesu Grist ac am i ninnau gael bod yn wrthrychau dy gariad tragwyddol. Do, ceraist y byd gymaint nes iti roi dy unig Fab, er mwyn i'r sawl sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.

Ein Tad, teimlwn mor annheilwng ac mor annigonol ein geiriau i fedru dod atat fel hyn i ddiolch i ti am Iesu Grist ac am yr hyn a gyflawnodd drosom, a ninnau wedi dy wrthod mor aml. Down mewn cywilydd ac mewn euogrwydd am inni wadu aberth Iesu Grist yn ein bywydau. Ond gwyddom iti ein caru a'th fod yn barod i faddau. Do, ceraist ni cyn ein bod.

‘A’i briod Fab a roes
Yn ôl amodau hen y llw,
I farw ar y groes.’

Diolchwn i ti am gael sefyll o'th flaen yng nghyfiawnder Iesu Grist, gan nad oes unrhyw gyfiawnder ynom ni ein hunain. Diolch i Iesu orchfygu, gan hwyluso'r ffordd inni ddod atat yn hyderus ac yn ffyddiog na fyddi yn ein gwrthod nac yn cefnu arnom. O! diolch, ein Tad, am iti ollwng dros gof ein pechodau ni drwy'r hyn a wnaeth Iesu ar ei Groes. Moliannwn dy enw wrth inni gofio am eiriolaeth dy Fab drosom:

‘O! Dad, maddau iddynt, oherwydd ni
wyddant beth y maent yn ei wneud.’
a chlodforwn dy enw oherwydd:

‘Euogrwydd fel mynyddoedd byd,
Dry'n ganu wrth y Groes.’

Derbyn ein diolch eto, ein Tad, am iti ein barnu a maddau inni yng ngwaed Iesu a'n caru fel pe bai dim ond un ohonom i'w garu. Yn Iesu Grist. Amen.

Geraint Hughes